

# NEWYDDLLEN

Y NEWYDDION DIWEDDARAF I HOLL STAFF Y BRIFYSGOL



PRIFYSGOL  
BANGOR  
UNIVERSITY

## GOSOD CARREG SYLFAEN PONTIO

Gosodwyd carreg sylfaen canolfan y celfyddydau ac arloesi newydd, Pontio, gan Leighton Andrews AC mewn seremoni greadigol a cherddorol yn ddiweddar.

Ymunodd aelodau band jazz a band pres Ysgol Tryfan a'r unawdwyw Rhys Meirion a Huw Ynyr â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i rhoi perfformiad unigryw mewn hetiau caled ar y safle adeiladu.

Bydd y ganolfan £44 miliwn sy'n cael ei hadeiladu gan Miller Construction yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf i ddiwallu anghenion cymunedau a busnesau lleol. Bydd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol, artistig a chymunedol arloesol gyda'r bwriad o hyrwyddo cydweithredu, darganfod a dysgu, a gwneud cyfraniad unigryw at adfywio Bangor a gwella sgiliau. Bydd yn cynnwys theatr newydd, theatr



O'r chwith: Yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor; Yr Arglwydd Elis-Thomas, Canghellor Prifysgol Bangor a Leighton Andrews AC, Gweinidog dros Addysg a Sgiliau.

stiwdio, sinema, stiwdio ddylunio ac arloesi, cyfleusterau addysgu a dysgu, Undeb y Myfyrwyr a bar, caffi a manau cyhoeddus.

Dywedodd yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor Prifysgol Bangor: "Bydd y ganolfan yn ganolbwynt i'r gymuned leol ac i'r brifysgol - bydd yn lle i gyfarfod, dysgu a chael eich diddanu ac yn gartref i ymchwil, dylunio a dysgu arloesol. Bydd yn lle unigryw a allai drawsnewid Bangor."

Dywedodd Leighton Andrews: "Mae'n bleser gennyf gael bod yn rhan o'r seremoni i osod carreg sylfaen y

datblygiad newydd a phwysig hwn. Bydd yn ddiamau yn adeilad eiconig.

"Rwy'n falch o bob cyfle i bwysleisio a dathlu llwyddiant yng Nghymru, ac rwy'n hyderus y bydd y datblygiad pwysig hwn - sydd wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru - yn hwb mawr i'r celfyddydau ac arloesi, nid yn unig yn y Brifysgol ac ym Mangor, ond yn yr ardal yn gyffredinol.

"Fel cyn-fyfyrwr y brifysgol hon, mae gweld yr holl ddatblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod y tri degawd diwethaf yn gyffrous iawn." ■

## UWCHRADDIO MAESGLAS

Yn gynnar yn 2013, bydd staff, myfyrwyr a'r gymuned yn cael y cyfle i gael dweud eu dweud am rai newidiadau arfaethedig i Ganolfan Chwaraeon Maes Glas. Naill ai ar-lein neu drwy ymweld â'r ganolfan, bydd staff yn gallu gweld cynigion ar gyfer man ffitrwydd deulawr newydd sbon, ystafelloedd newid wedi eu hadnewyddu'n llwyr a'u diweddarau, yn ogystal ag *Airdome* i orchuddio'r cyrtiau tennis presennol.

Yn y dyfodol, bydd ymwelwyr â Maes Glas hefyd yn elwa ar dderbynfa newydd, giatiau tro a dull awtomataidd o gael mynediad ar gyfer aelodau. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr adeilad ar ei newydd wedd wedi ei ail-lunio yn well ar gyfer yr ystod eang o gwsmeriaid, gan uwchraddio hefyd y décor blinedig a manau newid y cyhoedd o fewn yr adeilad presennol.

Bydd lleoedd newid yn cynnwys ciwbiclaau newid a chawodydd preifat. Mae'r gromen ychwanegol ar ochr ogledd-orllewinol Maes Glas yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Phêl-rwyd Cymru, a bydd yn darparu dau gwrth pêl-rwyd dan do yn ogystal â chadw'r cyrtiau tennis presennol fel y gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn ■

BRAF CWRDD Â  
Stephen Roe  
t03

DYRCHAFIADAU  
STAFF  
t04

YMCHWILA MENTER  
Swyddfa Newydd  
t06

GWOBR GYNTAF  
Adroddiad  
Blynyddol t07

GWASANAETH  
NEWYDD  
Tai Myfyrwyr t09

YSGOL NEWYDD  
Athroniaeth a  
Chrefydd t11

# SEFYDLIAD CONFUCIUS UNIGRYW YN AGOR

Mae'r Sefydliad Confucius cyntaf yn unman yn y byd i ganolbwyntio ar y Gyfraith wedi agor yn swyddogol ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar.

Lansiwyd y Sefydliad Confucius gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yng ngŵydd Mr Shen Yang, Gweinidog-Gwnselydd Llysgenhadaeth China. Roedd dirprwyaeth o sefydliad partner y Brifysgol, Prifysgol Gwyddor Gwleidyddol a Chyfraith China, dan arweiniad ei Llywydd, yr Athro Huang Jin, hefyd yn bresennol.

Cafodd y rhai a oedd yno eu diddanu gan berfformiadau o ganeuon gwerin a dawnsiau Tsieineaidd gan Brifysgol Yuannan, perfformiad caligraffi gan yr Athro Sune He o



O'r chwith: Mr Shen Yang, Gweinidog-Cwnselydd Llysgenhadaeth China; Yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor; Yr Athro Huang Jin, Llywydd Prifysgol China dros Wyddor Wleidyddol a Chyfraith a Carwyn Jones, Prif Weinidog yn dadorchuddio'r plac.

Brifysgol Gwyddor Gwleidyddol a Chyfraith China, a pherfformiad arbennig gan gôr meibion adnabyddus Hogia'r Ddwylan a disgyblion Ysgol Cae Top, Bangor.

Meddai Is-ganghellor Prifysgol Bangor, Yr Athro John G Hughes:

"Mae hwn yn ddatblygiad o bwys i ni. Mae Sefydliadau Confucius wedi dod yn llwyfan ar gyfer teithiau cyfnewid diwylliannol rhwng

China a'r byd. Bydd y sefydliad ym Mangor yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth rannu diwylliant a dysg Tsieineaidd ag ysgolion a sefydliadau diwylliannol yng nogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, wrth iddo ddatblygu rhaglen o weithgareddau diwylliannol. Bydd hefyd yn gyfle heb ei ail i'n myfyrwyr a'r gymuned leol ddysgu am lawer o agweddau trawiadol ar ddiwylliant China, gan wella'r cysylltiadau rhwng ein dwy wlad." ■

# CYMRODORIAETH ADDYSGU GENEDLAETHOL YN DOD I FANGOR

Llongyfarchiadau i Dr Charles Buckley o'r Uned Datblygu Academaidd yn yr Ysgol Addysg sydd wedi ennill Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol. Hon yw'r wobwr bwysicaf am ragoriaeth mewn addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch. Dyma'r tro cyntaf i aelod staff o Brifysgol Bangor dderbyn wobwr o'r fath.

Roedd Dr Buckley ymysg 55 o ddarlithwyr a staff cefnogi dysgu



O'r chwith: Heather Fry (HEFCE); Yr Athro Caroline Gipps (Cadeirydd Panel Cyngori CCAG); Dr Charles Buckley, Prifysgol Bangor a'r Athro Sir Robert Burgess, Cadeirydd Bwrdd AAU.

a ddewiswyd gan yr Academi Addysg Uwch (HEA) o blith dros 180 o enwebiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg uwch ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae wedi derbyn y wobwr o £10,000, y gall ei defnyddio ar gyfer ei ddatblygiad proffesiynol.

Fe'i canmolwyd am ei waith ar gynhwysedd, ymchwil i lawer agwedd ar addysgu a dysgu mewn addysg uwch, gwaith gyda Chymdeithas Staff a Datblygu Addysgol a chydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi staff ym Mangor a sefydliadau addysg uwch ar draws Cymru i astudio drwy'r iaith o'u dewis ■

# BRAF CWRDD Â ...

STEPHEN ROE CAPLAN CYDLYNU



**Yma mae Stephen yn dweud mwy wrthym amdano'i hun:**  
**Ymunodd Stephen â Thîm y Caplaniaid fel cynrychiolydd y Methodistaidd ar ôl symud i Borthaethwy ddwy flynedd yn ôl. Cymerodd y swydd Caplan Cydlynu yr haf hwn. Symudodd Stephen a'i wraig, Angela, i Sir Fôn yn 2004. Mae ganddynt ddau o blant; mab sydd newydd ddechrau cwrs gradd mewn Hanes yng Nghaerefrog, a merch sydd ym Mlwyddyn 10 yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.**

## **Beth ydi natur eich gwaith?**

Mae dwy agwedd i fy swydd bresennol, sef gweinidog i'r Eglwys Methodistiaidd (Wesleiaidd) Cymraeg yn Sir Fôn, a Chaplan Methodistiaidd i'r Brifysgol. Rwy'n cydlynu tîm o wyth Caplan gwirfoddol sy'n dod ar hyn o bryd o amrywiaeth o draddodiadau Cristnogol, ond rydym eisiau annog cynrychiolaeth o grefyddau eraill hefyd. Ein prif swyddogaeth yw bod ar gael i staff a myfyrwyr yn y Brifysgol sydd eisiau ein gweld a siarad â ni am ffydd neu unrhyw faterion eraill. Ar wahân i'n cyswllt rheolaidd â staff a myfyrwyr, rydym yn ymwneud hefyd â digwyddiadau fel y Gwasanaeth Carolau Nadolig a Darlith Flynyddol y Gaplaniaeth, ac rydym yn cael ein cynrychioli ar nifer o Bwyllgorau a Grwpiau Tasg y Brifysgol.

## **Beth ydych chi'n ei wneud yn eich amser hamdden?**

Chwaraeon ydi un o fy mhrif ddiddordebau a Burnley – sy'n agos i'r lle y cefais fy ngeni yn Sir Gaerhirfryn – ydi fy nhîm pêl-droed.

Ar lawer prynhawn Sadwrn yn y gaeaf byddaf yn gwneud y smwddio gan wrando'r un pryd ar sylwadau hollol ddiuedd ar wefan y 'Clarets Player' wrth i Burnley ddiodeff colled anlwcus ac anhaeddiannol arall. Pan oeddwn yn ifancach chwaraeais dipyn o griced, ond erbyn hyn rwyf wedi symud at fowls, sy'n golygu llai o gyhyrau poenus y bore wedyn.

## **Ar beth fyddwch chi'n gwrandao ar y radio a gwyllo ar y teledu?**

At ei gilydd mae Radio Cymru ymlaen gen i yn y car er mwyn ymarfer fy Nghymraeg, a Radio Five Live adref gyda'i chymysgedd o newyddion, materion cyfoes a chwaraeon. Fy ffefrynnau ar y teledu ydi chwaraeon, rhaglenni dogfen hanesyddol a sioeau cwis. Rydw i hefyd yn mwynhau darllen, yn arbennig nofelau da sy'n dadansoddi'r natur ddynol, a fy ffefryn ymysg awduron modern ydi Sebastian Faulks.

## **Beth oeddech chi'n ei wneud cyn ymuno â'r Gaplaniaeth?**

Bûm yn athro Ffrangeg ac Almaeneg mewn ysgol uwchradd yn Sir Caergrawnt am bedair blynedd ar ddeg (lle gwnes i gyfarfod ag Angela a'i phriodi).

## **Ydych chi'n mwynhau dysgu Cymraeg?**

Un o uchafbwyntiau symud i fyw i Sir Fôn oedd y cyfle a gefais i ddysgu Cymraeg. Dwi'n arbennig o hoff o agweddau ar y Gymraeg na welais mewn ieithoedd eraill a dwi'n gweld treiglo'r cytseiniaid yn arbennig o ryfeddol.

## **Oes gennych chi unrhyw gyngor i rai'n dysgu Cymraeg?**

Daliwch ati a pheidiwch â phoeni am wneud camgymeriadau, a hefyd hoffwn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith efo dysgwyr lle bynnag y bo modd, a pheidio â throï i'r Saesneg yn syth os nad yw'r dysgwr yn deall yn iawn y tro cyntaf ■

# DYRCHAFIADAU STAFF



Mae **Dr Stephen Colclough** wedi cael ei gyflogi yn Adran y Saesneg er 2005. Mae ei ddirchafiad wedi ei seilio'n bennaf ar ei waith ymchwil o

safon uchel. Mae ei waith ar arferion darllen yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg yn ddylanwadol a chyfeiriwyd ato'n eang mewn erthyglau cyfnodolion, penodau a chyfrolau gan ysgolheigion blaenllaw.



Ers ei benodi i Ysgol Busnes Bangor yn 2011, mae proffil ymchwil **Dr Tony Dobbins** wedi datblygu'n gyflym gyda chyhoeddiadau o'i

eiddo i'w gweld mewn ystod o'r cyfnodolion uchaf eu parch ym maes astudiaethau rheolaeth. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys cysylltiadau cyflogaeth Ewropeidd a rhyngwladol/HRM; ac effaith y dirwasgiad ar gysylltiadau cyflogaeth.



Mae ddirchafiad **Dr Martina Feilzer** o'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas wedi'i seilio ar ei hymchwil, yn cynnwys gwaith ar y berthynas rhwng

cyfiawnder cyhoeddus a throseddol ar lefel leol, genedlaethol ac Ewropeidd; y berthynas rhwng barn y cyfryngau a'r cyhoedd ar gyfiawnder troseddol; polisi penydiol; ac ymchwil gymharol a hanesyddol ym maes troseddol.



Mae **Dr Simon Creer** o'r Ysgol Gwyddorau Biolegol wedi bod yn datblygu methodolegau dilyniannu DNA yn ddiweddar i fesur

bioamrywiaeth ystod o gymunedau ar raddfeydd na fu'n bosibl cyn hyn, gan alluogi ymchwilio i gysylltiadau rhwng prosesau bioamrywiaeth ac ecosyste-mau mewn amgylchedd sy'n newid.

**Eleni mae'r nifer uchaf erioed o staff wedi cael dyrchafiad i raddfa Uwch Ddarlithydd – sefyllfa sy'n adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i wobrwyo rhagoriaeth. Roedd ceisiadau eleni o safon eithriadol, ac mae'r rhestr isod yn amlinellu ar ba sail y dyrchafwyd yr unigolion dan sylw:**



Yn ystod ei 18 mlynedd yn yr Ysgol Gwyddorau Biolegol, mae **Dr Wolfgang Wuster** wedi cyhoeddi dros 100 o gyhoeddiadau ymchwil,

llawer ohonynt yn y cyfnodolion mwyaf dylanwadol. Mae'n un o brif awdurdodau'r byd yn ei faes ac un o'r rhai cyntaf i ganolbwyntio ei ddiddordeb ymchwil ar taxa nadroedd o bwys meddygol.




Ers ymuno â'r Ysgol Gwyddorau Eigion yn 2007, mae **Dr Jacob Baas** wedi sicrhau £2.472m mewn grantiau ymchwil. Mae wedi dod i fri'n rhyng-

wladol ym maes gwaddodeg proses, ac mae'n gwneud enw iddo'i hun fel ymchwilydd allweddol i ddeinameg gwaddod mân. Mae wedi cyhoeddi 40 o bapurau ymchwil, a adolygwyd gan gyfoedion, mewn cyfnodolion rhyngwladol.



Ymunodd **Dr Emily Cross** â'r Ysgol Seicoleg yn 2011. Mae wedi cyhoeddi 21 o erthyglau a adolygwyd gan gyfoedion yn rhai o brif gyfnodolion

maes niwrowyddoniaeth wybyddol. Mae ei hymchwil yn prysur ennill bri mawr, ac mae wedi cael nifer o anrhydeddau a gwobrau o bwys yn ogystal â sicrhau amryw o grantiau ymchwil.



Ystyrir **Dr James Hardy**, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer, yn arweinydd byd ym maes hunan-siarad (h.y.

datganiadau a wneir gan athletwyr wrth ymarfer a chystadlu) ac mae'n dod i fri ym maes rhyngweithio rhwng arweinyddiaeth drawsnewidiol, sgiliau seicolegol a deinameg grŵp.

## Ar Sail Dylanwad a Chyfraniad Ehangach



Mae **Dr Sue Niebrzydowski** o Ysgol y Saesneg wedi bod yn Gyfarwyddwr yr Ysgol Graddedigion yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn

ogystal â gwasanaethu ar Fwrdd Rheoli a Phwyllgor Ymchwil y Coleg. Cafodd ddirchafiad ar sail ei chyfraniad dysgu a gofal bugeiliol eithriadol.



Dyfarnwyd cymrodoriaeth yn y Celfyddydau Creadigol a Pherfformio i **Dr Zoë Skoulding** gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r

Dyniaethau am ei rhagoriaeth mewn ymchwil. Caiff ei barddoniaeth sylw'n fyd-eang ac mae ei phroffil rhyngwladol yn nodwedd arbennig o'i gwaith ac yn glod i'r Brifysgol.



Mae gan **Dr David Huws** o'r Ysgol Gwyddorau Eigion enw da y mae wedi'i feithrin dros y tri degawd diwethaf yn y diwydiant geo-

wyddoniaeth alltraeth. Mae'n gyfrifol i raddau helaeth am ddatblygiad a llwyddiant y cwrs MSc Geowyddoniaeth Môr Cymwysedig, y mae ei raddedigion yn awr yn cynnal llawer o'r diwydiant alltraeth ym Mhrydain.

## Ar Sail Addysgu a Dysgu



Yn ddiweddar derbyniodd **Dr Charles Buckley** o'r Ysgol Addysg Gymrodoriaeth Ddysgu Genedlaethol gan yr Academi Addysg Uwch, sef y wobwr uchaf ym Mhrydain

i gydnabod rhagoriaeth mewn dysgu. Gweler erthygl ar dudalen 2.



Mae **Dr David Sullivan**, Pennaeth yr Ysgol Dysgu Gydol Oes, yn ffigwr allweddol a dylanwadol mewn addysg ran-amser yng Nghymru. Mae ganddo enw da'n rhyngwladol ar sail ei weithiau athronyddol

ar ddinasyddiaeth ac addysg fyd-eang, fel ysgolhaig o fri, cyfrannwr o bwys mewn cynadledau ac ysgrifennwr o ddylanwad.



Mae **Dr Frances Garrad-Cole** o'r Ysgol Seicoleg wedi chwarae rhan allweddol yn datblygu'r Rhaglen Sgiliau Cyflwyno Llafar i israddedigion. Fel Swyddog Anabledau er 2007 mae wedi darparu

ystod o adnoddau i fyfyrwyr, sydd wedi bod yn allweddol i gyfoethogi profiad myfyrwyr yn yr Ysgol.



Arweiniodd cyfraniad nodedig **Dr Fay Short** i weithgaredd addysgu yn yr Ysgol Seicoleg at Gymrodoriaeth Ddysgu yn 2011 ac enillodd Wobr Athro'r Flwyddyn 2012, ar sail enwebiadau myfyrwyr.

Dangosir ei hymroddiad i brofiad myfyrwyr mewn nifer o ffyrdd eraill hefyd, yn cynnwys cyflwyno Cynllun Cynghorwyr Dysgu i fyfyrwyr rhyngwladol.



Datblygodd **Dr Carl Hughes** o'r Ysgol Seicoleg y Rhaglen MSc Dadansoddi Ymddygiad Cymwysedig yn 2003, sydd erbyn hyn yn recriwtio dros 100 o fyfyrwyr MSc llawn a rhan-amser. Hon yw'r

rhaglen fwyaf o'i bath yn Ewrop. Mae wedi cyhoeddi 28 o erthyglau a adolygwyd gan gyfoedion a llwyddodd i sicrhau grantiau allanol gwerth dros £1.5 miliwn ■

# CYMRODYR NEWYDD CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

Llongyfarchiadau i staff presennol sydd wedi cael eu hethol yn gymrodyr yn etholiadau 2012 Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Etholir Cymrodyr newydd drwy gael eu henwebu gan Gymrodyr presennol. Mae angen i'r rhai a enwebir fod â record amlwg o ragoriaeth neu fri mewn unrhyw ddisgyblaeth academaidd, neu fod wedi gwneud cyfraniad o bwys i fyd dysgu os nad ydynt o fewn academia. Wrth gwrs mae cysylltiad Cymreig cryf yn hanfodol hefyd. Mae gan y Gymdeithas yn awr ddau gant a hanner o Gymrodyr sy'n ffigurau amlwg yn eu gwahanol ddisgyblaethau academaidd.

Dyma'r rhai sydd â chysylltiadau â Bangor:

**Yr Athro Nancy (Margaret) Edwards FSA FLSW**  
Athro Archaeoleg Ganoloesol

**Yr Athro John (Martin) Harper DMus FRCO(CHM) FRSCM FLSW**  
Athro Ymchwil RSCM mewn Cerddoriaeth a Litwrgi, Cyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Cerddoriaeth Gysegredig; Cyfarwyddwr Emeritws, Ysgol Frenhinol Cerddoriaeth Eglwysig

**Yr Athro (David) Barrie Johnson DSc FLSW** Ysgol Gwyddorau Biolegol

**Yr Athro Ian Rees Jones FLSW**  
Athro Cymdeithaseg a Phennaeth yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas

**Yr Athro Timothy Porter FLSW** Athro Emeritws Mathemateg

**Yr Athro Robert D Rafal FLSW** Athro Niwrowyddoniaeth Glinigol a Niwroseicoleg ■

## PIGION TRYDAR

Dyma rai o'r pethau mae rhai o'n dilynwyd wedi'u dweud ar Twitter

**@siantirdu** @prifysgolbangor @georgiaruth: Fedra'i ddim egluro'n llawn mor orfoleddus ydwi o gael dychwelyd at gyfrifiadur efo Cysill arno!

**@gethylogic** @prifysgolbangor Newydd weld Dr Sara Elin Roberts yn trafod Cyfraith Hywel ar The Story of Wales. Cofio'r darlithoedd fel yr oedden nhw ddoe

**@CatrinTMC** Pob lwc i fyfyrwyr @prifysgolbangor ar University Challenge heno!

**@gwawrxo** rili wedi enjoio #diwrnodagoredbangor, edrych ymlaen am gal actually dechra uni wan!

**@John\_Gillibrand** Llongyfarchiadau i @BangorUni am eu buddugoliaeth ar 'University Challenge' heno.

**@ElisThomasD** @prifysgolbangor croeso nol i athroniaeth a chrefydd i'w phriod le yn ein Prifysgol:ni all ond tyfu ein cyfraniad yn rhanbarthol a byd-eang ■

# SWYDDFA YMCHWIL A MENTER NEWYDD I FANGOR

Bellach, mae'r Swyddfa Ymchwil ac Arloesi a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni wedi cyfuno i greu swyddfa unigol, gyda'r bwriad o ateb anghenion y Brifysgol o ran ymchwil a menter. Swyddfa Ymchwil a Menter (SYM/REO) y gelwir ar y Gwasanaeth ategol newydd hwn.

Bydd SYM yn darparu tri gwasanaeth ar wahân, a phob un ohonynt ag arweinydd penodol â chyfrifoldeb dros swyddogaethau'r tîm.

Dan arweiniad Dr Antony Halsall, bydd y Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil yn gyfrifol am gydlynu a chefnogi ymchwil ar draws y Brifysgol, yn ogystal ag am roi cyngor ar bolisiau a threfnau'r Brifysgol, canllawiau ar gyllido a pharatoi ceisiadau am gyllid ar gyfer ymchwil. Byddant hefyd yn cydlynu ceisiadau am gyllid ar gyfer ymchwil ac yn rheoli projectau mwy, yn ogystal â rheoli agendâu REF ac Impact a darparu hyfforddiant i ymchwilwyr.

Dan arweiniad Dr Lindsay Jones, bydd y Gwasanaeth Trosoglwyddo a Masnacheiddio Technoleg yn gyfrifol am faterion yn cynnwys masnacheiddio deilliannau ymchwil, creu a chefnogi busnesau



Antony Halsall (chwith) a Bryn Jones.

newydd, yn ogystal â darparu hyfforddiant a chefnogaeth ym maes ymwybyddiaeth o fenter. Byddant hefyd yn canolbwyntio ar greu llwybr ar gyfer marchnata dyfeisiau a darganfyddiadau, a sefydlu cwmnïau deilliannol.

Dan arweiniad Mr Bryn Jones, bydd y Gwasanaeth Cyfnewid Gwybodaeth yn agor drws y Brifysgol ar gyfer busnesau a mentrau allanol.

Meddai'r Athro David Shepherd, Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil a Menter: "Mae hwn yn gam pwysig i'r Brifysgol, am ei fod yn creu un adran unigol ar gyfer ein gweithgareddau Ymchwil a Menter. O'r herwydd, bydd yn llawer rhwyddach i staff y Brifysgol yn fewnol, yn ogystal ag i sefydliadau allanol, drafod a datblygu gwahanol brojectau a chyfleoedd." ■

## GWOBR SŴOLEGOL I MARK

Mae Mark de Bruyn, Ymchwilydd Ôl-ddoethurol yn y Labordy Ecolog Foleciwlaidd a Geneteg, wedi derbyn yr *RJH Hintelmann Scientific Award for Zoological Systematics*. Derbyniodd Mark ei wobwr o €5,000 am ei waith nodedig ym maes swoddaearyddiaeth De-ddwyrain Asia.

Rhoddir y wobwr hon nid yn unig i werthfawrogi perfformiad gwyddonol blaenorol yr ymgeisydd, ond bydd yr enillydd hefyd yn cael cyfle i barhau â'i (g)waith ymchwil mewn cydweithrediad

â'r *Zoologische Staatssammlung München (ZSM)*. Gellir gwneud y gwaith hwn naill ai drwy ymweld â'r ZSM neu drwy gael deunyddiau gan ZSM i weithio arnynt yn rhywle arall.

Cyflwynwyd y wobwr i Mark ar 18 Ionawr, 2013 yn ystod seremoni yn y ZSM yn Munich, lle rhoddodd ddarlith fer ar ei waith ymchwil. Ers peth amser mae Mark wedi bod yn gweithio ar fioleg esblygiadol bioamrywiaeth dŵr croyw yn Ne Ddwyrain Asia, yn ogystal â meysydd ehangach yn cynnwys papurau mewn Geneteg PLOS, Tueddiadau

mewn Ecolog ac Esblygiad ac Adolygiadau Blynyddol mewn Ecolog, Esblygiad a Systemateg ■



Mark de Bruyn


# Y GORAU YN Y GYMANWGLAD

**Mae adolygiad blynyddol Prifysgol Bangor, a luniwyd gan yr Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, wedi ennill y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth ryngwladol.**

Penderfynodd Cymdeithas Prifysgolion y Gymanwlad mai adroddiad blynyddol Bangor ar gyfer 2010-11 oedd y gorau yn eu gwobrau cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfathrebu 2012. Sefydlwyd y gwobrau i gydnabod, annog a dathlu cyflawniadau sefydliadau addysg uwch a'u staff yn ogystal â thynnu sylw at fodlau ymarfer da ar gyfer y sector yn rhyngwladol.

Meddai Alan Parry, Cyfarwyddwr

Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata: "Rwy'n hynod falch bod Bangor wedi ennill y wobwr hon. Mae cael eich dewis i fod y gorau yn y Gymanwlad yn gamp fawr i dîm mor fach. Rwyf yn arbennig o falch gan ei fod yn dilyn cyflawniadau nodedig eraill, yn cynnwys ennill yr ail wobwr am y prospectws gorau i israddedigion y llynedd a hefyd cael ei rhoi ar y rhestr fer fel yr adran farchnata orau yn y DU. "Mae'r gwobrau hyn yn dystiolaeth bellach o'r gweithgaredd cyfathrebu a marchnata o ansawdd uchel a wneir ym Mangor - maent yn gyflawniadau gwych y gallwn i gyd fod yn falch ohonynt." ■



## GMB YN DERBYN GWOBR BWYSIG

**Yn ddiweddar cynhaliodd Arglwydd Raglaw Gwynedd seremoni arbennig i gyflwyno Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol 2012 i Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor (GMB).**

Yr anrhydedd cenedlaethol pwysig hwn yw'r MBE i grwpiau o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu cymuned leol er budd eraill. Mae'n gosod y meincnod cenedlaethol ar gyfer rhagoriaeth mewn gwirfoddoli, gyda gwaith y rhai a wobrwyr yn cael ei ystyried o'r safon uchaf.

I gydnabod eu cyfraniad nodedig,

Gyda Helen Munro a Trefor Alun (GMB) mae'r Arglwydd Raglaw; Maer Bangor, Y Cyngorydd Bryn Hughes; Yr Athro Carol Tully, DIG (Myfyrwyr); Dr Dewi Roberts o Gyngor y Brifysgol a myfyrwyr sy'n gwirfoddoli.

derbyniodd y grŵp o Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Bangor dlws grisial ynghyd â thystysgrif wedi'i llofnodi gan y Frenhines.

Mae dros fil o fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor, gyda 250 yn gwirfoddoli mewn un neu ragor o 17 o brojectau yn y gymuned. Ar hyn o bryd mae'r gwirfoddolwyr yn cyfrannu cyfanswm o 450 awr i'r gymuned leol bob wythnos.

Meddai Helen Munro, Rheolwr Gwirfoddoli Myfyrwyr ym Mhrifysgol

Bangor: "Mae'r gwirfoddolwyr yn eithriadol falch o dderbyn yr anrhydedd hwn sy'n tystio i'r amser y maent yn ei rhoi, a'r aberth y mae'n rhaid iddynt ei gwneud weithiau, er mwyn cyfoethogi bywydau pobl eraill fwy bregus. Daeth dros 40 aelod o'r tîm gwirfoddoli presennol i'r seremoni ac fe wnaethant wirioneddol fwynhau bod yn rhan o achlysur mor unigryw."

Roedd grŵp Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor ymysg 130 ar draws gwledydd Prydain a 3 grŵp o Gymru i dderbyn yr anrhydedd yn 2012 ■



## PRIFYSGOL RYNGWLADOL I'R RHANBARTH

**Ffurfiwyd y Ganolfan Addysg Ryngwladol ym Medi 2011 gyda'r nod o gyfuno'r gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol fel bod gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael mewn un lle iddynt.**

Mae'r Ganolfan wedi cael cartref erbyn hyn mewn rhan o Rathbone a adnewyddwyd ac fe'i hagorwyd yn swyddogol yn ddiweddar gan yr Is-ganghellor. Mae gan y Ganolfan nifer o swyddogaethau penodedig i roi cefnogaeth

i fyfyrwyr a phartneriaid, o ymholiadau cychwynnol ymlaen i raddio a thu hwnt i hynny. Mae'r swyddfeydd yn y Ganolfan Addysg Ryngwladol yn cynnwys:

- Swyddfa Recriwtio a derbyniadau Rhyngwladol
- Swyddfa Marchnata Rhyngwladol
- Swyddfa Datblygu a Rheoli Partneriaethau
- Swyddfa Lles Myfyrwyr Rhyngwladol
- Canolfan Iaith Saesneg i

Rhai aelodau staff y Ganolfan Addysg Ryngwladol.

- Fyfyrwyr Tramor (ELCOS)
- Swyddfa IELTS (International English Language Testing System)
  - Swyddfa Cyfnewid Myfyrwyr Rhyngwladol ac Astudio Dramor
  - Swyddfa Beijing
- Trwy roi profiad rhagorol iddynt ym Mangor, bydd ein myfyrwyr yn dod yn alumni grymus a fydd, yn eu tro, yn hyrwyddo'r Brifysgol drwy esiampl ac eiriolaeth ■

## SEFYDLU CANOLFAN NEWYDD Y GYFRAITH

**Sefydlwyd Canolfan Cyfraith Ryngwladol Bangor (BCIL) i annog a chefnogi ehangu ymchwil a dysgu Cyfraith Ryngwladol yn Ysgol y Gyfraith.**

Cyfarwyddwr y Ganolfan, yr Athro Suzannah Linton, yw Cadeirydd Cyfraith Ryngwladol a Chyfarwyddwr cyntaf pedair rhaglen Meistr mewn Cyfraith Ryngwladol newydd ac arloesol yr Ysgol. Yn ôl yr Athro Linton, 'rydym yn ystyried bod Cyfraith Ryngwladol yn elfen ganolog i roi golwg fyd-eang ar bethau i fyfyrwyr Bangor. Bydd BCIL yn ganolbwynt i ddysgu ac ymchwil ym maes Cyfraith Ryngwladol yng Ngogledd Cymru. Ein gweledigaeth yw datblygu canolfan ymchwil o'r safon uchaf a fydd yn rhoi addysg ac ymchwil o'r radd uchaf mewn Cyfraith Ryngwladol gan feithrin cymuned o rargoriaeth ysgolheigaidd yma ym Mangor.' ■



Yr Athro Suzannah Linton gyda'r Athro Malcolm Evans OBE, Cymrawd er Anrhydedd ac Aelod o Fwrdd Ymgynghorol BCIL



# FU CHWILIO AM DŶ ERIOD MOR HAWDD!

Mae rhaglen ar-lein ddwyieithog newydd yn dod â landlordiaid a myfyrwyr at ei gilydd ar we-dudalennau Gwasanaethau Myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan wneud chwilio am dai yn haws i fyfyrwyr, a gosod tai'n haws i landlordiaid.

Mae *Studentpad*, sy'n awr ar gael yn Gymraeg am y tro cyntaf, yn cynnwys tudalennau llety ar dudalennau Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol, gan ei gwneud yn haws i fyfyrwyr gael hyd i'r llety y maent yn chwilio amdano, boed yn fflat, tŷ i'w rannu neu fyw gyda theulu. Mae'n ffordd newydd hefyd i landlordiaid roi amrywiaeth o wybodaeth a lluniau am eiddo gwag y maent eisiau eu rhentu i fyfyrwyr.

Mae'r safle i'w gael drwy wefan Prifysgol Bangor yn: [www.bangor.ac.uk/student-services/studenthousing/](http://www.bangor.ac.uk/student-services/studenthousing/)

Mae'r gronfa ddata gyfredol yn ddelfrydol i fyfyrwyr gyda theuluoedd, myfyrwyr sy'n dod i ddiwedd eu cytundeb tenantiaeth neu sy'n symud allan o neuaddau preswyl.



O'r chwith: Amy a Mair yn y Swyddfa Tai Myfyrwyr.

Eglurodd Amy Jones o'r Swyddfa Tai Myfyrwyr: "Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r cwmni, Studentpad, i ddatblygu fersiwn ddwyieithog y rhaglen yma, fel ei bod yn addas i'n hanghenion ym Mhrifysgol Bangor. Bydd y safle'n gwneud chwilio am dai'n haws i fyfyrwyr ac mae'n galluogi landlordiaid i hyrwyddo eu heiddo gwag mewn ffordd lawer cliriach. Gall myfyrwyr rannu manylion am wahanol dai gyda ffrindiau, gan wneud chwilio am dai yn haws fyth. Gall myfyrwyr gofrestru ar y safle hefyd a chael gwybod pan fydd y math o dai y maent yn chwilio amdanynt yn dod ar gael."

Ychwanegodd Mair Owen yn Swyddfa Tai Myfyrwyr y Brifysgol: "Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i ni ganolbwyntio ar helpu a chynghori myfyrwyr ynghylch chwilio am dai neu unrhyw anawsterau neu broblemau y gallant

ddod ar eu traws." Fydd dim rhaid i fyfyrwyr sy'n chwilio am dai alw yn ein swyddfeydd i weld pa dai sydd ar gael i'w rhentu."

Mae'r safle hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol arall, megis cyfartaledd pris rhenti mewn gwahanol ardaloedd. Gall myfyrwyr sydd yn Wrecsam hefyd gael gwybodaeth am dai drwy'r safle.

Meddai Steph Barbaresi: "Rydym yn chwilio'n gyson am ffyrdd i wella a datblygu'r gefnogaeth rydym yn ei rhoi i'n myfyrwyr. Yn yr achos hwn, fe wnaeth cwmni meddalwedd Studentpad, a'n Gwasanaethau TG a Chanolfan Bedwyr, ein helpu i wireddu'r project. Roeddem mor falch ei gael yn gweithio cyn dechrau'r flwyddyn academaidd hon." ■



## SIAN YN CAEL EI OBE

Llongyfarchiadau i'r Athro Sian Hope, Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesi, a gasglodd ei OBE yn ddiweddar. Swyddogaethau presennol Yr Athro Hope yw Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesi ac Athro Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Bangor. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Ymgynghorol y Gwyddorau. Mae'r Athro Hope yn un o'r ychydig Athrawon benywaidd mewn Cyfrifiadureg ym Mhrydain ■

Yr Athro Sian Hope tu allan i Balas Buckingham gyda'i gwr, Pete.



## STAFF YN PARHAU I GEFNOGI ELUSEN LEOL

**Dros y flwyddyn ddiwethaf mae staff Prifysgol Bangor wedi codi dros £11,000 at Tŷ Gobaith yng Nghonwy ac yn ddiweddar cyflwynodd yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor, siec am £11,760 i reolwr Codi Arian Tŷ Gobaith, Sarah Kearsley-Woller MBE.**

Codwyd yr arian gan staff a myfyrwyr trwy ddigwyddiadau amrywiol gan gynnwys, loteri staff a gododd £2,500, a thaith gerdded nodedig i fynyr Wyddfa a gododd £615. Fe wnaeth Clwb Dawnsio Undeb y Myfyrwyr hefyd godi £1,000 drwy deithiau cerdded a dawnsio nodedig. Fe wnaeth staff hefyd roi

rhoddion elusennol yn hytrach nag anrhegion a chardiau i gydweithwyr dros y Nadolig. Codwyd bron i £1,000 hefyd drwy deithiau beicio nodedig amrywiol.

Yn gynharach eleni, fe gafodd aelodau staff eu gwahodd i lenwi holiadur am fywyd gwaith yn y Brifysgol ac, am bob holiadur a lenwyd, fe roddodd y Brifysgol £5 i Dŷ Gobaith, gan godi £6,065.

Dywedodd Joe Patton, o Wasanaethau Iechyd a Diogelwch y Brifysgol: "Mae Prifysgol Bangor wedi bod yn cefnogi Tŷ Gobaith am

bron i ddegawd ac ers mis Ionawr 2010 rydym wedi casglu £23,760.

Er bod hwn yn swm sylweddol o arian, rydym yn ymwybodol bod costau cynnal y ganolfan yn flynyddol tua £4 miliwn."

Hosbisau plant yw Tŷ Gobaith sy'n rhoi gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn dioddef o salwch terfynol, yn ogystal â chefnogi eu teuluoedd. Maent yn cefnogi dros 320 o blant a theuluoedd ar hyn o bryd yn Hope House yng Nghroesoswallt a Thŷ Gobaith yng Nghonwy ■

## NWYDDAU SWYDDOGOL Y BRIFYSGOL

**Hoffech chi rigio eich hun yn lliwiau'r Brifysgol neu swatio wrth ochr tedi ciwt? Wel, mae nwyddau neilltuol Prifysgol Bangor, a gynlluniwyd yn arbennig, ar gael i chi.**

Efallai mai un o'n teis sidan main fydd yn denu eich sylw, neu ymlacio efallai mewn hwdi lliwgar o'n dewis helaeth; beth bynnag, mae gennym rywbeth at bob chwaeth a phwrs. Mae ein hamrediad o nwyddau wedi'u hymestyn i gynnwys sgarffiau sidan i ferched, crysau polo a chrysau T, gorchuddion gliadiuron, mygiau a bagiau am oes. Rydym hefyd yn gwerthu tedis hoffus o amrywiol faint, sgarffiau cynnes, cyfflincs, pennau ysgrifennu a phadiau nodiadau.



Gellir gweld nwyddau brand y Brifysgol mewn cypyrddau arddangos ar draws y campws, ym Mar y Teras yn y Prif Adeilad, yng nghyntedd Neuadd Reichel, Bar Uno, Maes Glas a'r Swyddfa Ryngwladol. Gellir prynu nwyddau o'r Swyddfa Ryngwladol yn Rathbone, y Swyddfa Gynadleddau yn Reichel ac yn y siop hwylus ar safle Ffriddoedd, sy'n cadw'r ystod lawn o feintiau a lliwiau. Felly gellwch eu trio amdanoch cyn i chi brynu.

Gellir gweld rhestr lawn o eitemau a phrisiau yn [baruno.bangor.ac.uk/venues](http://baruno.bangor.ac.uk/venues) dan Siop Ffriddoedd ■



## STAFF YN DATHLU EU SGILIAU YN YR IAITH GYMRAEG

Fe wnaeth staff o Brifysgol Bangor sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg, neu wella eu gafael ar yr iaith, ddathlu eu llwyddiant yn ddiweddar.

Mewn seremoni arbennig fe wnaeth yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor a Wyn Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor dros Gyfrwng Cymraeg ac Ymwneud â'r Cyhoedd, ganmol staff sydd wedi bod yn meithrin eu sgiliau Cymraeg drwy fynd i ddosbarthiadau drwy'r Ysgol Dysgu Gydol Oes.

Ac yntau'n ddysgwyr Cymraeg ei hun, dywedodd yr Is-ganghellor: "Mae datblygu sgiliau Cymraeg staff yn rhan allweddol o'n hymrwymiad fel Prifysgol i weithredu'n gwbl ddwyieithog ac yn ganolog i'n dyhead i gynnal ein safle fel y sefydliad addysg uwch arweiniol o ran y Gymraeg." ■

Rhai o staff y Brifysgol sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg gyda'u tiwtoriaid Jenny Pye a Nia Llwyd (chwith) Ruben Chapela-O'rri, Karen Padmore, Gillian Pritchard, Claire Hawkes, Mike Beverley, Renata Kendall, Caroline Barton ac, Elwyn Hughes, tiwtor.

## YSGOL NEWYDD

Lansiwyd Ysgol newydd Athroniaeth a Chrefydd yn Ystafell y Cyngor ddydd Gwener, 12 Hydref. Yn bresennol roedd aelodau o Gyngor y Brifysgol a'r Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes.

Meddai Dr Eryl W Davies, Pennaeth yr Ysgol newydd, "Er mai cynllun newydd yw hwn, mae'r Ysgol wedi'i hadeiladu ar seiliau cadarn gan fod crefydd, mewn amrywiol weddau, wedi cael ei dysgu ym Mangor ers ymhell dros ganrif, a chafodd athroniaeth ei dysgu yma tan ddiwedd y 1980au. Felly, mae



O'r chwith: Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Yr Athro John G Hughes, Is-ganghellor, Dr Eryl W Davies a'r Arglwydd Davies o Abersoch, Cadeirydd y Cyngor.

yna draddodiad maith a nodedig o ddysgu'r ddau bwnc yma ym Mangor. Diolchodd Dr Davies i aelodau'r Cyngor ac i'r Is-Ganghellor am eu

cefnogaeth, yn ogystal ag i'r staff gweinyddol a oedd wedi gweithio yn y cefndir er mwyn sicrhau bod lansiou'r Ysgol newydd yn llwyddiant ■

# BANGOR YN ENNILL HER BEICIO

Llongyfarchiadau i'r holl staff a gymerodd ran yn Her Beicio Gwynedd a Môn 2012.

Gyda dros 40 sefydliad yn cymryd rhan, daeth y Brifysgol yn gyntaf yn y categori 350+ o staff, gyda 4.3% o staff yn ymuno, gan feicio dim llai na 6740 o filltiroedd dros yr her 4 wythnos. Yr Ysgol Gwyddorau Eigion enillodd yn y categori maint 20-49, gyda 40% yn cymryd rhan gan feicio 2358 o filltiroedd.

Roedd yr Her yn gyfle i gydweithwyr fynd ar eu beics a chael hwyl yn cystadlu yn erbyn gweithleoedd eraill yng Ngwynedd a Môn ■



Rhai aelodau o dîm seiclo'r Ysgol Gwyddorau Eigion a enillodd y categori maint 20-49.

## BORE I'W GOFIO

**Un bore heulog, bu taith arferol i'r gwaith yn un anghyffredin iawn i Mari Ellis Roberts. Wrth iddi deithio i gyfeiriad Bangor o'r Felinheli, aeth Mari, sy'n Swyddog Datblygu Staff yn yr Adran Adnoddau Dynol, heibio i gar a oedd wedi ei barcio y tu allan i giatiau Stad y Faenol.**

Ar ôl iddi ei basio, synhwyrodd bod rhywbeth o'i le ac aeth yn ôl i weld. Cwpwl ifanc oedd yn y car ar eu ffordd i Ysbyty Gwynedd; fodd bynnag, roeddent wedi stopio wrth ochr y lôn gan fod y ferch ar fin rhoi genedigaeth.

Meddai Mari: "Fe wnes i gyrraedd fel roedd y babi'n cael ei eni. Roedd y cwpwl wedi cynhyrfu'n arw eu bod wedi methu cyrraedd yr ysbyty, felly fe wnes i gysylltu â'r gwasanaethau brys a'u tawelu. Fe wnes i lapio'r babi bach mewn tywel o fy ngêr nofio i'w chadw'n gynnes ac arhosais efo nhw nes i'r ambiwlans gyrraedd."

"Sut oeddwn i'n gwybod i stopio a chynnig help? Wel, dwi ddim yn siŵr a dweud y gwir; efallai fod o'n rhywbeth i'w wneud efo fy ngreddf famol oherwydd roeddwn i fy hun yn feichiog ar y pryd!" ■



Mari Elis Roberts

## CANLYNIADAU CHWARAEON

I dderbyn holl ganlyniadau chwaraeon Timau Prifysgol Bangor drwy e-bost wythnosol, cysylltwch â Glyn Parry (glyn.parry@bangor.ac.uk), Gweinyddwr Clybiau a Chymdeithasau yn Maes Glas. Mae'r holl dablau cynghrair i'w cael ar wefan British Universities and Colleges: [www.bucs.org.uk](http://www.bucs.org.uk) ■

Cyhoeddir Newyddlen gan Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata o'r Brifysgol. Dylid anfon unrhyw eitem i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf o Newyddlen at Swyddfa'r Wasg e-bost: [ywasg@bangor.ac.uk](mailto:ywasg@bangor.ac.uk) © Prifysgol Bangor. Cysylltwch â'r Swyddfa Wasg am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl. Ceir newyddion diweddar o'r Brifysgol ar [www.bangor.ac.uk/news/current.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/news/current.php.cy)



@prifysgolbangor @NewyddionBangor